# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Gorffennaf 2il 2024 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Dewi Pritchard (cadeirydd), Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Rita Jones, Alwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Bethan Thomas, Iolo V. Evans

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mehefin 4ydd 2024) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Mynwentydd – **diolchwyd i Alwyn Jones ac Eilir Rowlands am ei gwaith ym mynwent Frongoch a chytunwyd i archebu pridd a herio offer addas er mwyn lefelu'r tir.**

<u>iv) Gohebiaeth</u>
<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Gwaharddiad Trafnidiaeth trwodd dros dro – Cefnddwysarn i Gwm Main, 5/07/24 a
Bethel i Glanrafon, 9/09/24 & Heol yr Eglwys (B4402), 19/09/24.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd

<u>b) Cwmni Pum Plwy Penllyn</u>.
i) Tegid360 – Ein Lle ar y We.

<u>c) Cantref.</u>
i) Arddangosfa Y Bala 700 – Yma o Hyd

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
i) Newidiadau i fynedfa Pale Hall, Llandderfel – darllenwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd a chafwyd cadarnhad fod Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi mynychu'r safle a thrafod gyda'r perchennog.

<u>vi) Materion Ariannol</u>
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau) - **cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.**
b) **Cytunwyd i dalu -** Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh), TWE a Sion Jones (gwaith y mynwentydd).

<u>vii) Materion lleol.</u>
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEDI 3ydd YN NEUADD MYNACH.